# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Ionawr 14eg 2021

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, Gavin Jones, C.Edwards, G.Hughes a Cyng P.Jenkins.

**Ymddiheuriadau:**

Cyng C.Dixon, Gwyn Jones.

**Cofnodion Rhagfyr 2020.**

Cynnigodd S.Roberts fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng G.Jones.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

**Dolfrwynog**- Mae Mr Aled Lloyd (Uwch Swyddog Cynllunio) Parc Cenedlaethol wedi ymateb i'r mater yma. Adroddodd Mr Lloyd fod caniatad cynllunio wedi ei roi yn 2015 i gadw sied bren at ddibenion rheoli coedlan a chadw gwaith peirianyddol cysylltiedig ar y tir i'r de o Dolfrwynog.

Mae'n debyg fod yr adeiliad sydd ar y safle yn wahanol i adeiliad a roddwyd caniatad iddo.

Mi fydd Mr Lloyd yn ddarparu diweddariad fel mae'r mater yn mynd ymlaen.

**Beudy Goetre**- Mae swyddogion y Parc wedi gohebu gyda perchnogion y tir ynglyn y mater.

**Cynghorydd Sir.**

Mae'r Cynghorydd wedi cysylltu a Mr Adrian Williams (Cyngor Gwynedd) a cadarnhau fod gwaith ar y grid gwartheg Ty'n y Groes ar fin dechrau hefo'r partiau newydd ar gael.

Gwynfynydd- Mae'r cynghorydd wedi cyfarfod a Cadeirydd cwmni Alba Minerals (yn ystod cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd).

Mae’r cwmni yn gweithio ar safle Gwynfynydd.

Er mwyn darganfod bwriadau a gobeithion y cwmni yn yr ardal dymuniad y cynghorwyr oedd ymestyn gwahodd i swyddog y cwmni i gyfarfod y cyngor.

---------

Mewn ymateb i’r cyngor yn gofyn os yw'r cyd-bartneriaid Cyngor Gwynedd, CNC a Pharc Cenedlaethol Eryri hyd yma wedi gweithredu cynllun gweithredu i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac annynol gan ddarpar ymwelwyr â'n hardal yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Gofynnodd y cynghorydd i'r mater hwn gael ei roi ar agenda'r mis nesaf er mwyn iddo sefydlu'r sefyllfa bresennol.

Clerc i ychwanegu’r mater ar agenda mis Chwerfor.

**Materion ariannol.**

Cyllid misol mis Rhagfyr 2020;

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £7682.04 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| Taliadau: | |
| Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus | £972.00 |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £6610.04 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Mae'r Cyngor wedi rhoi cynning am praespet o £3000 am y flwyddyn ariannol nesaf.

Clerc i wneud cais ad-daliad TAW am y flwyddyn ariannol yma.

**Unrhyw fater arall.**

Cyng Hughes yn adrodd fod y llwybr cyhoeddus rhwn Gwndwn a Glanllyn y Forwyn o dan ddwr wedi gwaith torri coed yn yr ardal.

Clerc i gysylltu a CNC ynglyn y mater.